Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Lansio canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch "Budd i'r Gymuned" a ddatblygwyd i sicrhau bod caffael cyhoeddus yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i sicrhau budd i gymunedau lleol.** |
| **Dyddiad:** | **22 Ebrill 2010** |
| **Gan:** | **Jane Hutt, y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb** |

Mae'n dda gennyf lansio heddiw ganllawiau a fydd yn cynorthwyo ac yn annog pobl sy'n ymwneud â chaffael yn y sector cyhoeddus i sicrhau 'Budd i'r Gymuned' a sicrhau y ceir y gwerth gorau am bob punt o arian cyhoeddus a gaiff ei wario.

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru'n gwario tua £4.3 biliwn bob blwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau allanol. Gall caffael cyhoeddus wneud gwahaniaeth mawr i les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn edrych yn barhaus ar ddulliau arloesol o sicrhau gwerth gorau.  Datblygwyd y canllawiau hyn er mwyn sicrhau bod cymunedau lleol yn elwa ar ein gweithgareddau caffael.

Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at y bobl hynny sydd ynghlwm wrth wario arian cyhoeddus a byddant o werth a chymorth iddynt wrth fynd ati i helpu cymunedau dan anfantais drwy hybu cyfleoedd hyfforddi a chyflogi a thrwy hybu cyfleoedd busnes posibl i gwmnïau yng Nghymru. Bydd y canllaw hwn yn helpu'r bobl hynny sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus i gynnwys budd i'r gymuned yn eu prosesau tendro a cheir ynddo hefyd wybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael. Rydym eisoes wedi gweld y gwahaniaeth mewn dros 20 o brosiectau ledled Cymru - bydd y canllaw hwn yn helpu i droi polisi arloesol yn arfer cyffredin yng Nghymru.

Mae copi o'r canllawiau ar gael yn y Canllaw Cynllunio Caffael